**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.cymru

8 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) ar 3 Chwefror, hoffwn fynd ar drywydd dau bwynt:

*Labelu ac olrhain*

Fel y dywedais yn y Pwyllgor, rydym ar y camau cwmpasu cynnar gan weithio gydag Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd (FPAs) eraill. Bydd angen i unrhyw gynlluniau yn y dyfodol gydymffurfio â rheoliadau diogelwch a deunydd pacio bwyd a bydd angen iddynt sicrhau bod modd olrhain cynhyrchion pysgodfeydd yn ôl i'r ffynhonnell ar hyd y gadwyn gyflenwi.

Mae angen i gynlluniau labelu ac olrhain fod yn dryloyw, gan ganiatáu i'r defnyddwyr wybod bod eu pysgod wedi'u dal mewn modd cyfrifol, diogel a moesegol, eu bod yn ddiogel i'w bwyta ac o ble y daethant.

Mae nifer o gynlluniau achredu ar gael ar draws diwydiant bwyd a diod y DU. Bydd angen ystyried yn ofalus ynglŷn â mabwysiadu cynllun presennol neu ddatblygu cynllun newydd gan y diwydiant, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben o fewn y sector bwyd môr. Bydd yn bwysig, wrth ystyried hyn gyda'r Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd eraill, ein bod yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd o gynlluniau'r sector Bwyd a Diod ac Amaethyddiaeth ledled y DU, ac yn adolygu gwaith ymchwil ar agweddau a disgwyliadau defnyddwyr a rhanddeiliaid cyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyd nes y cytunir ar y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a bod trafodaethau manwl wedi'u cynnal, nid ydym mewn sefyllfa i ddarparu unrhyw fanylion na chostau dangosol i'r llywodraeth na'r diwydiant ar hyn o bryd.

*Y Fframwaith Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd*

Rhoddais wybod i'r Pwyllgor am gyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith Amlinellol a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd ar 17 Chwefror. Rwy'n hapus i drafod ymhellach â'r Pwyllgor, yn bersonol neu drwy ohebiaeth ar y dogfennau hyn.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**